# Rhestr wirio: materion cyflogaeth/hawliau gweithwyr

## Ydych chi yn cynnig dogfennau cyflogaeth yn Gymraeg i'ch gweithwyr?

- ◯ Contract cyflogaeth
- ◯ Unrhyw ohebiaeth bersonol sydd yn ymwneud efo materion cyflogaeth
- ◯ Dogfennau'n amlinellu anghenion hyfforddiant
- ◯ Dogfennau amcanion perfformiad neu gynllun gyrfa
- ◯ Ffurflenni cofnodi gwyliau, absenoldeb o'r gwaith, ac oriau hyblyg

## Ydych chi yn cynnig copïau o bolisïau allweddol yn Gymraeg?

- ◯ Ymddygiad yn y gweithle
- ◯ Iechyd a lles yn y gweithle
- ◯ Cyflogau neu fuddion yn y gweithle
- ◯ Rheoli perfformiad
- ◯ Absenoldeb o'r gwaith
- ◯ Amodau gwaith
- ◯ Patrymau gwaith

## Ydych chi yn galluogi staff i ddilyn prosesau cwynion a disgyblu yn Gymraeg?

- ◯ Cadarnhau fod eich gweithdrefn gwynion yn nodi hawliau staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y broses gwynion a disgyblu
- ◯ Hysbysu staff fod hawl ganddynt i wneud ac ymateb i gwynion yn Gymraeg
- ◯ Rhoi'r cyfle i staff gwblhau'r broses ddisgyblu yn Gymraeg, gan gynnwys unrhyw gyfarfodydd

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner